



Rebecca Roberts

Dwedwch ychydig wrthym am y llyfr.

#Helynt yw stori Rachel, goth ifanc sy'n byw yn y Rhyl. Un diwrnod mae hi'n methu'r bws i'r ysgol ac yn cwrdd â dyn dirgel o'r enw Shane. Mae Shane yn gwybod cyfrinach am orffennol Rachel, ac mae hi'n awchu am gael y gwirionedd ganddo...

Sut brofiad oedd ysgrifennu'r llyfr?

Wrth ysgrifennu nofel rwyt ti'n treulio misoedd lawer yn dod i adnabod dy brif gymeriad; yn meddwl amdany'n nhw, yn cynnal sgysiau dychmygol â nhw, yn cynllunio efo nhw... Maen nhw'n meddiannu rhan o dy fywyd am flwyddyn a mwy. Mae Rachel yn gymeriad mor feiddgar, cryf ac unigryw roedd treulio amser yn ei chwmni hi wastad yn bleser.



Oed 14+ Gwasg Carreg Gwalch
ISBN: 9781845277765



holi Rebecca Roberts

1. Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?

Ges i fy ngeni yn y Rhyl, ond rydw i wedi byw ym Mhrestatyn ers i mi fod yn ddwy oed.

2. Ble cawsoch chi eich addysgu?

Ysgol Dewi Sant, y Rhyl, Ysgol Glan Clwyd yn Llanelwy ac yna, astudiais radd Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol ym Mhrifysgol Bangor.

3. Beth oeddech chi'n ei hoffi/ei gasáu am yr ysgol?

Roeddwn i'n hoffi nifer o bethau am yr ysgol – gwersi Saesneg a drama yn benodol; ond doedd fy amser yn yr ysgol ddim yn un arbennig o hapus, yn bennaf oherwydd pobl fel Eira allan o #Helynt.

4. Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu i fyny?

O fod yn ifanc iawn, gwyddwn mai sgwennu nofelau oeddwn i am wneud. Meddylies i ddim am sut oeddwn i am ennill bywoliaeth nes fy mod i ar fin cwblhau fy ngradd!

5. Beth oedd eich hoff lyfr yn blentyn?

Dwi'n anobeithiol am ddewis hoff bethau! Ond mae gan *Matilda* gan Roald Dahl le arbennig yn fy nghalon.

6. Beth yw eich diddordebau?

Gwrando ar fiwsig roc a mynd am dro gyda'r teulu neu ar ben fy hun. Does gen i ddim yr amser am hobi go iawn!

7. Beth sy'n gwneud chi'n hapus?

Cerdded brynau Clwyd gyda fy nheulu. Dawnsio o gwmpas y gegin i fy hoff ganeuon. Dod o hyd i ffrog vintage ar eBay. Eistedd yn yr haul. Nofio yn y môr.

8. Beth sy'n eich gwylltio?

Anghyfiawnder. Creulondeb.

9. Pryd ddechreuoch chi feddwl am ysgrifennu?

Dwi'n cofio fy mod i'n mwynhau ysgrifennu creadigol mor bell yn ôl â blwyddyn 5 yn yr ysgol gynradd, ond yn bendant erbyn i mi gyrraedd yr ysgol uwchradd roeddwn i wedi dechrau breuddwydio am weld fy enw ar glawr nofel.

10. O ble rydych chi'n cael eich syniadau?

Y cymeriadau sy'n dod gyntaf, ac yna dwi'n dechrau creu byd o'u hamgylch – pa rwystrau maen nhw'n wynebu? Pa heriau sy'n rhaid iddyn nhw orchfygu? Dyna yw sail y plot.

11. Oes yna themâu/pynciau arbennig sy'n apelio atoch?

Fel un oedd yn dioddef yn aruthrol o ddiffyg hyder yn ifanc, dwi'n mwynhau'n arw'r broses o greu cymeriadau swil neu ansicr a'u gwyllo nhw'n tyfu'n hyderus a dewr. Rydw i'n ffeminist i'r carn, ac mae'n anodd dychmygu creu prif gymeriad sydd dim o'r un anian. Mae'r themâu / pynciau yn aml yn adlewyrchu profiadau fy mywyd i, achos mae'n ffordd i mi brosesu a gwneud synnwyr o'r byd.

12. Oes gennych chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu?

Darllenwch, beirniadwch a dadansoddwch sut mae straeon (llyfrau, ffilmiau, cerddi ac ati) wedi eu strwythuro. Dewch i arfer efo holi'ch hun, 'sut fyddwn i'n mynd ati i gyflwyno'r stori hon?' Credwch yn eich llais – peidiwch â chymharu'ch hun i neb arall, na cheisio efelychu awduron eraill.

13. Beth yw'r peth gorau/gwaethaf am fod yn awdur?

Y peth gwaethaf, heb os, ydi'r holl amser mae'n rhaid i mi dreulio yn eistedd o flaen gliniadur. Y peth gorau? Clywed bod pobl yn dotio ar fy nghymeriadau ac yn mwynhau fy straeon.

Hoff lyfr o 'mhlentyndod:

Matilda gan Roald Dahl

Hoff gymeriad mewn llyfr:

Pry Cry allan o *Sali Sws yr Octopws*

Hoff le:

Fy nghartref

Hoff fwyd:

Siocled

Hoff air:

Jolihoetian

Superpower o ddewis:

Gallu teithio'n ôl mewn amser

Hoff rwydwaith cyfryngau cymdeithasol:

Twitter

Beth sy'n gwneud i mi wenu:

Teipio 'Y Diwedd'

Swydd tase chi dim yn awdur?

Swydd ddelfrydol?

Canu mewn band roc

(Er 'mod i'n methu canu o gwbl!)

Top tip i ddarpar awduron:

Dyfalbarhad